

# FFRAMWAITH LLETY A CHYMORTH I YMADAWYR GOFAL YNG NGHYMRU

Crynodeb

**sheltercymru.org.uk**
Charity no. 515902

SHELTER CYMRU

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

# CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen ganllawiau hon yn ategu fframwaith llety a chymorth ymadawyr gofal Cymru. Bwriedir defnyddio'r ddogfen ochr yn ochr â thair adran y fframwaith fel canllawiau i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r rhai sy'n gadael gofal i nodi ble i ddod o hyd i wybodaeth yn y fframwaith a darparu gwybodaeth gryno am faterion penodol. Rydym yn annog pawb sy'n defnyddio'r ddogfen hon i ddarllen fersiwn lawn y fframwaith sydd ar gael yma. Mae'n bwysig pwysleisio **nad** yw'r ddogfen hon **i'w defnyddio fel rhestr wirio** heb gyfeirio at y prif ddogfennau.

# SAIL RESYMEGOL AR GYFER Y CANLLAWIAU

Mae sicrhau bod gan bobl ifanc rywle saff a diogel i fyw yn ganolog i sicrhau profiad cadarnhaol wrth iddyn nhw adael gofal ac ar gyfer meysydd bywyd eraill fel addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, iechyd meddwl gwell, cysylltiadau a datblygu rhwydweithiau cymdeithasol. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod pobl ifanc yn gwerthfawrogi'n fawr cael dewis ble byddan nhw'n byw a chael eu cynnwys mewn penderfyniadau a fydd yn effeithio arnyn nhw. Mae cyfranogiad pobl ifanc yn y penderfyniadau hyn yn brofiad dysgu gwerthfawr, mae'n gallu helpu i leihau eu pryder am y dyfodol, ac mae'n debygol o'u cynnwys i raddau mwy yn y broses o ddewis tai.

Mae'r broses o bontio i fod yn oedolyn a byw yn annibynnol yn wahanol i bob person ifanc. I'r rhai sy'n gadael gofal, gall y broses hon fod yn gyfres o gamau bach neu fawr, o fewn y sector gofal ac wrth adael gofal a thu hwnt. Nid oes unrhyw lasbrint ar gyfer llwyddiant, ond bydd rhai egwyddorion yn helpu. Er enghraifft, mae'r elfennau pwysig yn cynnwys cynllunio ar gyfer anghenion unigryw pob person â phrofiad o fod mewn gofal, bod yn hyblyg a rhagweithiol wrth ddarparu cymorth, a gwneud cynlluniau wrth gefn. Bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc 18 oed - nid y rhai sy'n gadael gofal yn unig - yn ei chael hi'n anodd rheoli eu tenantiaeth eu hunain yn llwyddiannus hyd yn oed gyda chymorth. Dyma pam mae'r fframwaith wedi'i gynllunio i sicrhau bod gan bobl ifanc sy'n gadael gofal y cymorth hyblyg sydd ei angen arnyn nhw fel nad oes unrhyw berson ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael ei anwybyddu. Os yw pobl ifanc sy'n gadael gofal yn gwybod sut i ymdopi ag anawsterau, bydd llai o bwysau arnyn nhw a byddan nhw'n gallu datblygu gwytnwch wrth ddelio â'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae angen cymorth ar bobl ifanc sy'n gadael gofal gan eu rhieni corfforaethol trwy gydol y cyfnod pontio hwn, a thu hwnt.

# BETH FYDD YN GWNEUD I'R FFRAMWAITH WEITHIO'N DDA?

## Sicrhau'r canlynol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal:

- Eu bod yn cael cymaint o wybodaeth, dewis a rheolaeth â phosibl
- Eu bod yn gallu gwneud camgymeriadau ac nad ydyn nhw byth yn disgyn allan o'r fframwaith
- Eu bod yn cael eu helpu i lwyddo
- Eu bod yn cael cynnig cymorth hyblyg sy'n addasu i ddiwallu eu hanghenion
- Eu bod yn cael cynnig cysylltiadau cefnogol a diamod
- Eu bod yn derbyn cymorth trwy gyfrifoldeb a rennir gan eu rhiant corfforaethol

## Pwyntiau ymarferol eraill ar gyfer gweithwyr proffesiynol:

- Mae cynnwys y person â phrofiad o fod mewn gofal yn hanfodol, ar sail ei ddymuniadau a'r cymorth sydd wedi'i lywio gan ei anghenion a'i brofiad
- Defnyddio gwybodaeth bresennol (cynlluniau llwybr)
- Cydweithio â'r person â phrofiad o fod mewn gofal, o fewn awdurdodau lleol a gydag asiantaethau eraill
- 'Model datblygiad parhaus' - Nodi bylchau mewn gwasanaethau, addasu, datblygu a gwella
- Gwaith cynllunio trylwyr a darparu cymorth 'lefel uchel' i sicrhau a chadw tai



Dylai pobl ifanc sy'n gadael gofal symud tuag at fyw'n annibynnol mewn pum cam, a allai ddigwydd mewn trefn wahanol, fwy nag unwaith ac ar yr un pryd:

## Fframwaith Ymadawyr Gofal: Y Pum Cam

### Paratoi ar gyfer realiti dewisiadau tai

- Gwybodaeth berthnasol a chywir
- Rheoli disgwyliadau
- Hyfforddiant cyn-denantiaeth
- Dewisiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth
- Cyngor a chymorth arall sydd ar gael

### Cynllunio dewisiadau tai a chymorth pobl ifanc gyda nhw

- Cyfle gwell i sicrhau canlyniad da
- Cynlluniau llwybr/tai personol
- Canllawiau 'Pan Fydda i'n Barod'
- Gwaith cynllunio a chymorth wedi'i deilwra
- Cynllunio wrth gefn
- Cydweithio

### Lleihau'r argyfwng tai

- Canolbwyntio ar fesurau atal
- Dull gweithredu rhagweithiol
- Cymorth ymarferol (cyllidebu ac ati)
- Cyfryngu- adnodd datrys effeithiol
- Seibiannau tymor byr

### Cael mynediad at dai a chymorth yn ôl yr angen

- Ymateb i anghenion cymhleth pobl ifanc
- Gwasanaethau hyblyg
- Protocolau atgyfeirio (e.e. 'porth')
- Gwella diogelu a rheoli risg

### Cyrchu a rheoli'n llwyddiannus ddewisiadau symud ymlaen a chymorth mwy hirdymor

- Annibyniaeth hirdymor
- Adolygu ac addasu cynllun llwybr
- Asesu fforddiadwyedd hirdymor
- ALlau yn datblygu strategaethau ar gyfer y sector rhentu preifat
- Mynediad at dai cymdeithasol

# ENGHREIFFTIAU O ARFER DA

Isod ceir crynodeb o enghreifftiau o arfer da ar gyfer y pum cam hyn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y ddogfen "Enghreifftiau o arfer da".

## Paratoi ar gyfer Realiti Dewisiadau Tai

### Egwyddorion allweddol:

- **Galluogi pobl ifanc i ddysgu oddi wrth ei gilydd**
- **Sicrhau bod adrannau awdurdodau lleol yn cydweithio'n agos**
- **Darparu gwybodaeth ymarferol am dai ar gyfer gofalwyr a gweithwyr cymdeithasol**
- **Deall data yn ymwneud â gadael gofal er mwyn gwella gwaith cynllunio strategol**
- **Sicrhau bod hyfforddiant a chyngor perthnasol ar gael i bobl ifanc**

Mae Byw yn Annibynnol  yn darparu amrywiaeth o raglenni addysg a chymorth ledled Conwy a Sir Ddinbych gan roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i bobl ifanc yn ymwneud â digartrefedd a byw'n annibynnol.

Mae gan Shelter Cymru amrywiaeth o adnoddau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal, ac maen nhw ar gael i'w lawrlwytho:

- Leaving care & moving on: A housing guide for care leavers
- Right Track Pack: A Youth Practitioner's Guide to Housing and Homelessness
- Addysg Gadael Cartref
- Opening Doors: An educational resource on housing options and homelessness for young people aged 11-18

## Cynllunio Llety a Chymorth Pobl Ifanc gyda Nhw

Egwyddorion allweddol:

- Ystyried cynnwys swyddog tai yn y tîm gadael gofal
- Paneli amlasiantaeth i drafod unigolion penodol sy'n gadael gofal
- Darparu gwelyau tymor byr ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael y carchar
- Cynnwys gofalwyr maeth a gofalwyr preswyl wrth helpu'r person â phrofiad o fod mewn gofal i gynllunio

Asiantaeth trydydd sector yw **Llamau** sy'n gweithio gyda phobl ifanc a menywod sydd mewn perygl o fod yn ddigartref mewn sawl awdurdod lleol yng Nghymru. Mae wedi derbyn cyllid yn ddiweddar i ddarparu prosiect partneriaeth arloesol i fynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â systemau i bobl ifanc sy'n gadael carchar. Mae'r bartneriaeth yn darparu cyfres arloesol a hyblyg o ymyriadau pwrpasol sy'n ystyriol o drawma sy'n diwallu anghenion penodol pobl ifanc (18-25) sy'n gadael carchar. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys llety â chymorth arbenigol, gwasanaeth cyfryngu teuluol cyn-rhyddhau a chanolfan amlasiantaeth.

## Lleihau'r Argyfwng Tai

Egwyddorion allweddol:

- Ystyried darparu hyfforddiant cyfryngu i staff os nad oes darpariaeth arbenigol ar gael
- Gall cynllunio wrth gefn leihau adegau o argyfwng
- Gall cyngor cynnar a mannau gwybodaeth dynodedig helpu pobl ifanc i osgoi argyfyngau

Gweithredodd **Cyngor Abertawe** mewn ffordd ragweithiol er mwyn dileu'r defnydd o lety gwely a brecwast brys ar gyfer pobl ifanc, gan sefydlu grŵp llywio amlasiantaeth eang i gynllunio darpariaeth amgen bwrpasol. Mae hyn wedi arwain at newid sylweddol yn y modd y mae pobl ifanc yn cael eu lletya, gan nad yw llety gwely a brecwast yn cael ei ystyried yn ddewis ymarferol bellach gan asiantaethau lleol.

## Cael Mynediad at Dai a Chymorth yn ôl yr Angen

Egwyddorion allweddol:

- Mae llety â chymorth yn effeithiol os yw'n fach ac yn cynnig cymorth wedi'i deilwra
- Gall canlyniadau y cytunir arnyn nhw a chyllidebau a rennir rhwng adrannau helpu i gyflawni nodau
- Agwedd gyfannol at ddewisiadau tai, gan ystyried yr effaith ar addysg, cymorth ac ati.
- Mae hyblygrwydd staff a chadw staff yn allweddol er mwyn hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc

Fe wnaeth **Cyngor Sir Ynys Môn** ddatblygu dewislen o ddewisiadau llety ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys cynllun i'r rhai sydd ag anghenion cymhleth neu luosog a chynllun tai â chymorth saith gwely. Derbyniodd y prosiect bobl ifanc â lefelau angen uwch a fyddai, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cael eu hystyried yn lefelau angen rhy uchel i'w lleoli mewn mathau eraill o ddarpariaeth tai â chymorth. O'r cychwyn cyntaf, mae'r gwasanaeth wedi cynnwys panel dyrannu amlasiantaeth sy'n cyfarfod i rannu gwybodaeth, arferion da ac ystyried atgyfeiriadau bob mis neu pan fydd lle gwag ar gael.

Menter ar y cyd rhwng **Gwasanaeth Plant a Theuluoedd Torfaen a Gwasanaeth Grant Cymorth Tai Torfaen** yw'r Llwybr Gwasanaeth Cymorth Uwch i Bobl Ifanc. Mae'r gwasanaeth yn cynnig llwybr sy'n darparu llety â chymorth tymor byr, tymor canolig a hirdymor ymarferol. Mae'n cynnig cyfres o ddewisiadau llety a chymorth i adlewyrchu anghenion amrywiol a chymhleth pobl sy'n gadael gofal, ac mae adnoddau ychwanegol ar gael ar gyfer pobl ifanc ddigartref os oes pob dewis arall wedi'i ddisbyddu.

Mae'n darparu llwybr diogel i bobl ifanc 16 oed, sy'n cael llety ar hyn o bryd mewn lleoliadau preswyl cost uchel neu leoliadau y tu allan i'r sir, ddychwelyd i'w bwrdeistref gartref. Hefyd, mae'n sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau priodol sydd eu hangen i gynnal tenantiaeth yn y dyfodol a gofalu amdanyn nhw eu hunain yn briodol.



# Cyrchu a Rheoli'n Llwyddiannus Ddewisiadau Symud Ymlaen a Chymorth Mwy Hirdymor

**Egwyddorion allweddol:**

- **Ystyried y dewis o rannu tai cymdeithasol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal neu bobl ifanc eraill**
- **Gweithio gyda chynlluniau mynediad rhentu preifat presennol**
- **Ystyried trefniant prydlesu'r sector preifat i ddarparu llety sefydlog a reolir fel bod pobl ifanc yn gallu dysgu sgiliau a chael profiad o fyw'n annibynnol**
- **Cynghorwyr personol i ystyried fforddiadwyedd trwy newidiadau mewn hawliau i fudd-daliadau yn 22 oed**
- **Dyletswydd awdurdodau lleol i ddiogelu eiddo os yw pobl ifanc yn symud oherwydd digartrefedd neu'r perygl o fod yn ddigartref**

Mae **Crisis** wedi datblygu pecyn cymorth hyfforddi ar gyfer staff cymorth sy'n gweithio gyda phobl ifanc er mwyn eu haddysgu am fyw yn y sector rhentu preifat. Mae'r pecyn cymorth yn esbonio hawliau tenantiaid, ac yn egluro rhai mythau - er enghraifft yn ymwneud â throi allan a chynyddu costau rhent. Hefyd, mae'n darparu dolenni i raglenni hyfforddi cyn-denantiaeth eraill.

# Deddfwriaeth Ymadawyr Gofal

Mae'r adran hon yn amlinellu'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Fframwaith Ymadawyr Gofal ac yn nodi'r ddeddfwriaeth allweddol a'r dehongliad ohoni trwy gyfraith achosion. Mae deddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol a digartrefedd yn darparu dyletswyddau llety penodol. Bwriedir i ymarferwyr ddefnyddio'r ddogfen hon fel cyfarwyddyd i wella gwybodaeth am yr agweddau cyfreithiol sy'n sylfaen i'r fframwaith. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen hon yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.

## Pobl ifanc 18 oed a throsodd

Er nad yw'r holl ddyletswyddau llety o dan ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol yn cynnwys pobl ifanc neu'r rhai 18 oed a throsodd sy'n gadael gofal, mae rhai pwyntiau pwysig i'w hystyried. Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol o ddyfarniad yn 2010 gan y Llys Apêl yn egluro'r ddyletswydd ar awdurdodau gwasanaethau plant i ddarparu llety ar gyfer pobl ifanc dros 18 oed sy'n gadael gofal dan rai amgylchiadau. Daeth y Llys Apêl i'r casgliad canlynol: 'If the former relevant child is unable to access appropriate accommodation through some other means (such as through a combination of a council tenancy and housing benefit), and the provision of accommodation is necessary for that care experienced person's welfare, then social services will be under a duty to provide or arrange suitable accommodation.'

## Deddfwriaeth Digartrefedd

O dan ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae gan bob person 16 ac 17 oed, ac unrhyw berson 18, 19 neu 20 oed a oedd yn derbyn gofal, yn cael llety neu'n cael gofal maeth ar unrhyw adeg pan oedd o dan 18 oed, angen blaenoriaethol am lety. Os yw'r person â phrofiad o fod mewn gofal wedi cael ei 'letya'n wirfoddol' gan y gwasanaethau cymdeithasol, mae'n rhaid bod y llety hwn wedi cael ei ddarparu am gyfnod parhaus o fwy na 24 awr.

Mae statws angen blaenoriaethol yn golygu bod gan adran dai awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu llety brys, a helpu i sicrhau llety mwy hirdymor am gyfnod o 56 diwrnod. Os nad yw'r person â phrofiad o fod mewn gofal wedi sicrhau llety mwy hirdymor ar ddiwedd y cyfnod 56 diwrnod, mae gan yr adran dai ddyletswydd i ddarparu tai. Gellir cyflawni'r ddyletswydd hon trwy gynnig llety rhentu cymdeithasol neu lety rhentu preifat.

I gael mwy o wybodaeth am y newidiadau sydd wedi'u gwneud i angen blaenoriaethol, gweler y brif ddogfen.

Mae agweddau ar God Canllawiau ar ddigartrefedd statudol Llywodraeth Cymru yn berthnasol i awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol hefyd. Mae'r Cod yn nodi bod pobl ifanc sy'n gadael gofal ymysg y grwpiau sy'n debygol o fod mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref nag eraill, ac mae'n nodi'r canlynol:

- Gall gwybodaeth adrannau gwasanaethau cymdeithasol am nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal gynorthwyo adrannau tai i gynnal adolygiadau o ddigartrefedd
- Ble bynnag y bo modd, mae'n bwysig bod anghenion tai pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael eu diwallu cyn iddyn nhw adael gofal
- Bydd gwneud trefniadau ar gyfer llety a sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn derbyn cymorth tai addas yn elfen hanfodol o gynllun llwybr person â phrofiad o fod mewn gofal
- Lle bo angen, dylid gwneud trefniadau asesu ar y cyd gan y gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai fel rhan o asesiad amlasiantaeth i lywio'r cynllun llwybr

Bydd awdurdodau unigol yn penderfynu ym mhob achos a yw pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael llety gan y gwasanaethau cymdeithasol neu gan yr awdurdod tai. Mae angen rhoi protocolau sydd wedi'u cytuno ar y cyd ar waith ar gyfer asesu anghenion.

## Sicrhau bod llety yn addas

Mae Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015 hefyd yn egluro pa ffactorau sy'n gyfystyr â llety addas i'r rhai sy'n gadael gofal rhwng 16 a 17 oed (pobl ifanc categori 2). Dyma'r ffactorau:

- Cyfleusterau a gwasanaethau a ddarparwyd
- Cyflwr
- Diogelwch
- Lleoliad
- Cymorth
- Statws tenantiaeth
- Yr ymrwymiadau ariannol perthnasol ar gyfer y person categori 2 â phrofiad o fod mewn gofal, a'u fforddiadwyedd

**wrth werthuso addasrwydd eiddo penodol, mae'n bosibl na fydd awdurdod lleol yn fodlon bod y llety yn addas mewn perthynas â phob ffactor. Mae sefyllfa pob person sy'n gadael gofal yn wahanol, ac efallai y bydd modd cyfiawnhau rhoi mwy a llai o bwysau ar ffactorau penodol yn unol â hynny.**

**Hefyd, mae'r rheoliadau yn egluro sut y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y diffiniad o lety addas fel llety sydd, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, yn addas i'r person â phrofiad o fod mewn gofal ar sail ei anghenion, gan gynnwys ei anghenion iechyd, addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.**

**Hefyd, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried dymuniadau a theimladau'r person â phrofiad o fod mewn gofal, ei farn am y llety, ei ddealltwriaeth o'i hawliau a'i gyfrifoldebau a sut mae'r llety'n cael ei ariannu. Hefyd, rhaid i'r awdurdod lleol fod yn fodlon â chymeriad ac addasrwydd y landlord neu'r darparwr arall.**

**Mae Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 yn amlinellu'r materion y mae'n rhaid i dimau digartrefedd eu hystyried wrth drefnu llety ar gyfer unrhyw ymgeisydd digartref. Ceir gorgyffwrdd sylweddol â Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) mewn perthynas â llawer o'r ffactorau sydd i'w hystyried. Dylai ymarferwyr Gadael Gofal fanteisio ar arbenigedd adrannau tai ac iechyd yr amgylchedd wrth benderfynu ar addasrwydd.**

## Ystyriaethau ymarferol

Bydd angen i wasanaethau gadael gofal sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer gwirio addasrwydd cyn bod person â phrofiad o fod mewn gofal yn symud i mewn i eiddo. Dylai gwasanaethau fod â chysylltiadau gwaith da gyda gwasanaethau tai ac amgylcheddol er mwyn derbyn cymorth gyda'r dasg hon. Dylai'r broses sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau ar fyr rybudd, fel bod pobl sy'n gadael gofal yn gallu cael gafael ar eiddo.

Os yw gwiriadau addasrwydd yn nodi'r angen am welliannau, mae'n bosibl y bydd angen trefnu eu bod yn cael eu gwneud ar ôl i'r person â phrofiad o fod mewn gofal symud i mewn. Er enghraifft, gallai'r awdurdod gynorthwyo'r person i addurno'r eiddo neu ddarparu cyllid i wella ei ddiogelwch. Rhaid rhoi gwybodaeth drylwyr i bobl ifanc am y cymorth sydd ar gael os oes problemau'n codi. Mae anghenion amrywiol a newidiol pobl ifanc sy'n gadael gofal yn golygu y dylai ystod o ddewisiadau llety lled-annibynnol ac annibynnol fod ar gael. Mae'r dewisiadau hyn yn cynnwys:

- galluogi pobl ifanc i aros mewn llety lle maen nhw'n derbyn gofal – er enghraifft, trwy newid lleoliad maethu i fod yn drefniant neu dŷ llety â chymorth ôl-18
- tŷ llety â chymorth, ac eithrio gyda chyn gofalwyr
- mathau eraill o dai â chymorth, gan gyfuno llety â chymorth a chyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- fflatiau hyfforddi lle mae pobl ifanc yn gallu 'ymarfer' byw yn fwy annibynnol
- llety arbenigol - e.e. llety hunangynhwysol gyda chymorth personol ar gyfer pobl ifanc anabl a phobl ifanc ag anawsterau iechyd meddwl
- llety annibynnol yn y sector rhentu cymdeithasol neu'r sector rhentu preifat, gyda chymorth fel y bo'r angen
- byw gyda theuluoedd biolegol
- trefniadau byw 'Pan Fydda i'n Barod' ôl-18, sy'n galluogi pobl ifanc i aros gyda'u gofalwyr maeth rhwng 18 a 21 oed

## Cysylltiad lleol a digartrefedd

O dan Adran 81 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae gan berson gysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol os oes gan y person gysylltiad â hi:

- Oherwydd bod y person yn preswylio yno fel arfer, neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol, a bod y preswyliad hwnnw o ddewis y person ei hun
- Oherwydd bod y person yn cael ei gyflogi yno
- Oherwydd cysylltiadau teuluol
- Oherwydd amgylchiadau neilltuol

Yn ôl y Cod Canllawiau Digartrefedd, os yw pobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi cael eu lleoli y tu allan i'r ardal, a'u bod yn gadael gofal ac yn dymuno dychwelyd i'r ardal roedd ganddyn nhw gysylltiad â hi yn wreiddiol, dylid derbyn bod ganddyn nhw gysylltiad â'r ardal, hyd yn oed os ydyn nhw wedi cael eu lleoli am gryn amser yn rhywle arall. Hefyd, dylid ystyried bod gan bobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n dymuno aros yn ardal y lleoliad gysylltiad lleol os ydyn nhw'n bodloni'r prawf cysylltiad lleol. Felly, os oes person ifanc sy'n gadael gofal wedi'i leoli y tu allan i'r ardal ac yn dymuno dychwelyd i'w ardal wreiddiol, rhaid i awdurdod yr ardal wreiddiol dderbyn bod gan y person gysylltiad lleol â hi.



## Deddfwriaeth Tenantiaeth Cymru: Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Cyflwynwyd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ar 1 Rhagfyr 2022, ac mae'n darparu fframwaith newydd ar gyfer pob tŷ sy'n cael ei rentu yng Nghymru. Mae'n diogelu tenantiaid a thrwyddedeion i raddau mwy, gan amlinellu eu hawliau a'u cyfrifoldebau yn fwy clir. Mae tenantiaid a thrwyddedeion yn cael eu disgrifio fel 'deiliaid contract' o dan y ddeddf newydd. Rhaid i landlordiaid roi 'contract meddiannaeth' ysgrifenedig i ddeiliaid contract. Mae'r rhan fwyaf o denantiaethau a thrwyddedau cynghorau, cymdeithasau tai a phreifat wedi cael eu disodli gan gontractau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Ni all person â phrofiad o fod mewn gofal o dan 18 oed ddal contract meddiannaeth (am fwy o wybodaeth am denantiaethau ar ymddiriedaeth, gweler y ddogfen gyfreithiol), felly mae'r adran isod ar denantiaethau ar ymddiriedaeth yn berthnasol o hyd yn yr achosion hynny. Ar gyfer deiliaid contract 18 oed a throsodd, mae yna ddau fath o gontract meddiannaeth:

- **Contract diogel:** Mae hwn yn disodli tenantiaethau diogel a gyhoeddwyd gan awdurdodau lleol a thenantiaethau sicr a gyhoeddwyd gan gymdeithasau tai
- **Contract safonol:** Dyma'r contract a fydd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf yn y sector rhentu preifat, ond mae awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn gallu defnyddio'r contract hwn dan rai amgylchiadau (e.e. 'contract safonol â chymorth' ar gyfer llety â chymorth)

Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn cynnwys newidiadau pwysig eraill i'r gyfraith tai.

## Hyfforddi a Datblygu

Os yw'r cwestiynau uchod wedi ysgogi awydd i wella ar eich arferion da neu ddatblygu dealltwriaeth a gallu yn eich tîm, Shelter Cymru yw un o'r prif ddarparwyr hyfforddiant yng Nghymru ar gyfraith tai a materion cysylltiedig. Mae'r tîm yn darparu hyfforddiant e-Ddysgu a hyfforddiant byw ar amrywiaeth o bynciau perthnasol. Cliciwch yma i ddysgu mwy.

**sheltercymru.org.uk**

Registered charity no. 515902